

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Ann Owen (Llanefydd). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Philip ei gŵr, a'r meibion – David, Alun a Gethin, a gweddill y teulu, gan weddio y bydd Duw yn dda wrthynt yn ystod y dyddiau hyn. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â Heather Jones (Llansannan) a'r teulu ym marwolaeth ei mam. Gweddiwn y byddant hwythau'n adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Cofiwn hefyd am Elwy Owen (Llanefydd) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd a Glyn Jones (Nantglyn) yng Nghanolfan Walton – y ddau wedi cael llawdriniaeth. Gweddiwn y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn eu hiachau. Cyflwynwn eu teuluoedd hefyd yn ein gweddïau, a hyderwn y cânt adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drostynt. Cofiwn am eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd hefyd a chyflwynwn hwythau i ofal yr Arglwydd, gan weddio ar iddynt gael profi cwmni'r Iesu mewn ffordd arbennig y dyddiau hyn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Howell Jones sydd wedi dychwelyd i gartref Bryn yr Eglwys yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd; Mr R. J. Davies (Amber House); Mrs Morfydd Williams (Southern House); Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy); Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Mrs Menna Owen (The Meadows) a Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn.
- Llongyfarchiadau i Rob ac Einir Davies (Saron) ar enedigaeth mab, Robin Llewelyn, brawd bach i Wil ac Elias. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni.

I ddod

- **Christian Viewpoint** – Cyfarfod i ferched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mawrth 11eg am 7.30 yng nghwmni Marian Whitaker o Kingdom Krafts, Llandudno – “From ship to shop and beyond”. £3 yn cynnwys bwffe.
- **Adnabod DAWN:** Sesiwn nesaf - Mawrth 12fed.
- Bydd y cyfarfod nesaf ar gyfer **Chwiorydd Eglwys Bro Aled** ar Nos Fawrth, Mawrth 12fed, pan fydd cyfle i ymweld â'r Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy. Cyflwynir hanes yr adeliad hanesyddol yn ogystal â chael ein tywys o amgylch yr adeilad, cyn cael gwasanaeth byr o dan ofal y Gwir Barchedig Nigel Williams, Deon y Gadeirlan. Yn dilyn yr ymweliad, byddwn yn mynd i Morfa Rhuddlan am bryd o fwyd. Enwau i law Dwynwen Davies (815235) erbyn Mawrth 5ed, os gwelwch yn dda.
- **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng Ebrill 1af-5ed. Mae croeso i bawb - plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Cewch fwy o fanylion ar y wefan www.llanw.org.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3^{ydd} Mawrth 2013

Darlleniad y Dydd

Marc 4:13-20

(BCND tud.41 / BCN: tud.37)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd! Roedd dydd Gwener, Mawrth 1af yn ddiwrnod i ddathlu'r Beibl yn Gymraeg! Roedd yn 25 mlynedd union ers cyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd, ac mae'r Beibl cyfan mewn Cymraeg cyfoes wedi cael ei lansio ar wefan www.beibl.net.

Wrth i ni gydaddoli heddiw, beth am i ni roi diolch i Dduw wrth weddio'n breifat neu fel cynulleidfaoedd am ei Air tragwyddol ac am y rhai a fu'n llafurio'n ddiflino i ddod â'r Gair i'n meddiant yn y Gymraeg. Wrth feddwl am Beibl.net diolchwn am Arfon Jones yn arbennig. Ymgysgrodd Arfon i'r gwaith mewn ffydd nifer o flynyddoedd yn ôl ac ni phallodd ei ymroddiad na'i frwdfrydedd dros ddod â Gair Duw i gyrraedd cenhedlaeth newydd o Gymry Cymraeg a dysgwyr. Iaith gyfoes gyhyrog a ddefnyddiwyd ganddo a bu llawer yn cydweithio ag o i ddarllen profleuni, ymateb i ffurfiau a chystrawennau newydd. Diolchwn i Dduw hefyd am bawb a fu'n cydweithio hefo Arfon ac am yr holl adnoddau newydd sydd bellach ar gael i ni ac i ysgolion, mudiadau ac eglwysi ar y wefan.

Pam mynd i'r holl drafferth o gyfieithu i Gymraeg cyfoes? Argyhoeddiad dwfn yw'r ateb. Argyhoeddiad o'r budd a ddaw i bobl o ddarllen y Beibl ac argyhoeddiad o bwysigrwydd medru deall yr hyn sy'n cael ei fynegi yn y Beibl. Gwyddom mai'r Ysbryd Glân – Ysbryd Crist yn unig sydd yn medru dod â ni i ddeall y Gair go iawn – i'w brofi fel gair sy'n bywhau ein henaid ac yn goleuo ein deall a'n calon. Gweddiwn felly, wrth ddiolch, am i Dduw anfon ei Ysbryd gyda'i Air i'n plith fel y byddwn ninnau'n cael ein bywhau a'n cyffroi o'r newydd gan fod gennym Air Duw yn ein hiaith ein hunain ar wedd gyfoes ond yn dragwyddol ei ddylanwad! Nid achub yr iaith Gymraeg a ddaru'r Beibl ond bod yn gyfrwng i achub pobl ddaru ymgysgru'i bywydau i wasanaethu Duw a'i addoli yn y Gymraeg. Heb fod y Gair yn cael ei le ynom ni, nid yr iaith yn unig sydd yn marw, ond ni ein hunain!

Yn y darlleniad heddiw cawn ein herio gan ddameg yr heuwr. Golwg trist a llwm sydd ar y tiroedd lle nad yw'r had, sef Gair Duw, yn llwyddo. Ond cynhaeaf doreithiog sydd yna lle mae'r tir yn ddwfn a'r had yn cael ei le. Felly yn y galon. Calon farwaidd a llwm yw'r un lle nad yw gair Duw wedi gwreiddio ond o gael y Gair ynom mewn ffordd fywiol trwy'r waith yr Ysbryd yna mae bywyd yn gynhaeaf ynom a'n bywydau yn dwyn ffrwyth ar ei ganfed i Dduw.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli Arbennig** – cyfle i ieuencid ac oedolion addoli hefo'n gilydd yn Ffestri Llansannan o 7.30 tan 8.30, dan arweiniad Ben.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Neuadd Llanfair am 10.00 a'r Ysgol Sul am 11.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a'r Ysgol Sul am 2.00.
- Mercher Cynhelir cyfarfod o'r Gymdeithas Undebol yn Neuadd Goffa Llanfair am 7.30 pryd y ceir sleidiau a sgwrs am Ynysoedd y Galapagos gan Eifion Griffiths, Diserth. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa Sul y Mamau i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac i'r oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Dydd Jangl. Dewch am banded **erbyn 11.00** a bydd Aneurin yn rhoi sgwrs, ac yna cewch ginio fel arfer oddeutu 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain **oedfa deulu** am 10.00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul am 2.00. Bydd Rhodri yn arwain **oedfa deulu** yn Saron am 10.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron heddiw.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Trefniant 'Adnabod Dawn' fydd ym Mheniel gyda Celfyn Williams yn arwain yr oedfa am 10.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yno am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Groes am 10.00 a'r Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol yng Nghapel Henllan am 2.00 dan arweiniad Mr Peter Smith, a'r Ysgol Sul am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Irfon Parry yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 2.00 a'r Ysgol Sul yn y ddwy eglwys am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau